



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg
18^{fed} Hydref 2019
Cofnodion

Yn bresennol:		
Enw	Teitl	Sefydliad
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Alun Morgan (AMg)	Prif Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
Y Cyngorydd Neil Moore (NM)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Rob Thomas (RT)	Rheolwr Gyfarwyddwr	Cyngor Bro Morgannwg
Nadia De Longhi (ND)	Rheolwr Gweithredoedd	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Emil Evans (EE)	Is-brifathro	Coleg Caerdydd a'r Fro
Len Richards (LR)	Prif Weithredwr	BIP Caerdydd a'r Fro
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Sian Griffiths	Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd/Cyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddi	BIP Caerdydd a'r Fro/Iechyd Cyhoeddus Cymru
Y Cyngorydd Mike Cuddy (MC)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref Penarth
Hannah Williams (HW)	Pennaeth De Cymru Un	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Hefyd yn bresennol:		
Tom Bowring (TB)	Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Joanna Beynon (JB)	Swyddog Polisi	Cyngor Bro Morgannwg
Dr. Joseph Grey (JG)	Cyfarwyddwr Clinigol Gerontoleg Glinigol	BIP Caerdydd a'r Fro
Emma Mitchell (EM)	Uwch Nyrs	BIP Caerdydd a'r Fro

Ymddiheuriadau:		
Paula Ham (PH)	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Partneriaethau Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol	Llywodraeth Cymru
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

	Camau Gweithredu
<p>1. Croeso a chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd NM bawb i'r cyfarfod a bu cyflwyniadau.</p> <p>Roedd NM yn sôn am ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth sy'n amlinellu'r gwaith gwych y mae'r Cyngor yn ei wneud ac y mae wedi'i gefnogi ers nifer o flynyddoedd. Siaradodd am bwysigrwydd herio hiliaeth a gweithio gyda'n gilydd i roi terfyn ar wahaniaethu.</p> <p>Diolchodd NM pawb yn bresennol am gytuno i'w llun gael ei gymryd fel rhan o 'Ddiwrnod Gwisgo'n Goch' i godi ymwybyddiaeth o waith yr elusen ac i ddangos eu cefnogaeth i fynd i'r afael â hiliaeth.</p>	
<p>2. Ymddiheuriadau</p> <p>Gweler uchod.</p>	
<p>3. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 10 Gorffennaf 2019</p> <p>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn rhai gwir a chywir.</p>	
<p>4. Ymgysylltu ar Gynigion i Wella Gofal i Bobl Hŷn Fregus ym Mro Morgannwg</p> <p>Cyflwynodd LR y tîm o'r Bwrdd Iechyd a roddodd gyflwyniad ar y gwaith ymgysylltu parhaus ynghylch y cynigion ar gyfer gwella'r gofal i bobl hŷn bregus ym Mro Morgannwg.</p> <p>Esboniodd LR ei bod ar hyn o bryd yn hanner ffordd drwy'r ymarfer ymgysylltu ar y cynigion sy'n effeithio ar Ysbyty'r Barri. Gofynnodd LR i bartneriaid ganolbwyntio ar y model gofal yn y cyflwyniad gan ei fod yn credu ei fod yn welliant i'r gofal a ddarperir ac yn darparu gofal yn agosach/yn y cartref lle bo'n bosibl. Dim ond y cleifion hynny sydd angen gofal aciwt fydd yn yr ysbyty, a lle bo'n bosibl, bydd y rheini nad oes angen gofal aciwt arnynt yn cael gofal yn y gymuned. Gan fod y model hwn wedi'i anelu at osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty a lleihau hyd arhosiad cleifion yr oedd angen eu derbyn, byddai'r galw am welyau yn cael ei leihau gyda'r canlyniad na fyddai angen y gwelyau yn ward Sam Davies Ysbyty'r Barri mwyach. Ailadroddodd LR fod y cynigion yn canolbwyntio ar ddarparu'r lefel briodol o ofal yn y lleoliad mwyaf priodol.</p>	

Yn dilyn y cyflwyniad, croesawodd tîm y Bwrdd Iechyd unrhyw gwestiynau neu sylwadau a sicrhawyd partneriaid y byddai eu barn yn cael ei bwydo yn ôl i broses ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd ar y cynigion.

Mynegodd RC bryderon ynghylch materion trafndiaeth a allai godi pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt. Gofynnodd RC pa ddarpariaeth fyddai'n cael ei rhoi ar waith i wneud yn siŵr nad yw pobl yn cael eu hynysu yn yr ysbyty oherwydd nad yw eu teuluoedd/ffrindiau yn gallu parcio neu deithio i ysbyty gwahanol yn hawdd.

Ymatebodd JG ac LR wrth hysbysu'r grŵp fod pryderon ynghylch trafndiaeth wedi'u codi mewn digwyddiadau ymgysylltu eraill a'i fod yn rhywbeth y mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio ei wella, gan gynnwys darparu cyfleusterau parcio a theithio. Bydd y cynigion yn sefydlu model gofal gwell a fyddai'n lleihau nifer y bobl y mae angen iddynt ddod i'r ysbyty, a bydd hyn yn helpu i leihau unigedd ynddo'i hun.

Roedd partneriaid o'r farn y byddai'n bwysig i wasanaethau fod ar waith cyn cau'r ward. Mynegodd RC bryderon hefyd ynghylch yr amserlen ar gyfer y bwriad i gau ward Sam Davies a datblygu Ysbyty'r Barri fel Canolfan Iechyd a Lles. Teimlwyd y dylai datblygiadau'r gwasanaethau yn y Barri ddigwydd ar yr un pryd â chau'r ward ac y byddai amserlen gyflym ar gyfer datblygu yn helpu i leddfu pryderon pe gwelid bod y Fro yn cael ei blaenoriaethu yn lle Caerdydd.

Cytunodd LR fod gwersi wedi'u dysgu o'r ymarfer ymgysylltu a'r angen i ddod â chynlluniau at ei gilydd. Y bwriad yw y bydd cynllun cychwynnol ar gyfer y ganolfan iechyd a lles ar waith ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a chaiff hyn ei lywio gan waith Suzanne Clifton (swydd Bwrdd Iechyd Prifysgol/y Cyngor a ariennir ar y cyd) sydd wedi dechrau gyda rhanddeiliaid a chymunedau lleol. Pwysleisiodd LR fod y Bwrdd Iechyd yn ystyried Ysbyty'r Barri yn rhan sylfaenol o ofal iechyd a lles gyda dyfodol mawr.

Dywedodd RT fod darn o waith sy'n amlinellu'r gwaith a fydd yn cael ei wneud i ddatblygu Ysbyty'r Barri yn y dyfodol yn hanfodol ac mae'n bwysig bod hyn yn cael ei wneud cyn dod i gasgliad ar y broses ymgysylltu. Teimlai RT hefyd ei bod yn bwysig i bartneriaid ddeall y gall penderfyniadau unigol a wneir gan bartneriaid gael effaith ganlyniadol ar eraill mewn meysydd eraill fel tai a thrafnidiaeth. Cytunodd LR fod darn o waith i'w wneud ar sut olwg fydd ar ddyfodol Ysbyty'r Barri, bydd hyn yn cael ei wneud ar ôl i'r gwaith ymgysylltu ddod i ben ym mis Tachwedd.

Holodd MC beth mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud o ran gwaith atal a chysylltu â sefydliadau fel Gofal a Thrwsio. Dywedodd FK fod gan y Bwrdd Iechyd berthynas dda gyda Gofal a Thrwsio a bod gwaith ar y berthynas rhwng byw'n iach ac atal yn bendant ar eu radar ac y byddai datblygu'r ganolfan iechyd a lles a'r canolfannau lles yn helpu yn y maes hwn.

Cododd CH bryderon hefyd ynglŷn â'r gweithgarwch sy'n cael ei wneud i hyrwyddo gwaith atal mewn cartrefi os yw'r model yn anelu at gael mwy o bobl i aros gartref a chynnig cymorth i gwblhau asesiadau o gartrefi. Dywedodd AM wrth y partneriaid fod newid wedi bod yng ngwaith yr heddlu lle mae'r heddluoedd yn aml yn ymateb i alwadau'n ymwneud ag iechyd a iechyd meddwl. Bu cynnydd yn y galwadau am wiriadau lles a galwadau larwm i'r heddlu nawr bod yna ddiffyg mecanweithiau ymgysylltu â chefnogaeth gymunedol yno. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch beth fydd yn cael ei roi ar waith os caiff gwasanaeth ei ddileu.

<p>Holwyd gan NM pam y disgrifiodd y Bwrdd Iechyd yr ysbyty fel un oedd yn gweithredu mewn 'arwahanrwydd' o fewn y ddogfen ymgysylltu gan fod gan yr ysbyty wasanaethau nad ydynt yn gweithio ar eu pennau eu hunain ar hyn o bryd. Mae'r trigolion yn ystyried cau ward Sam Davies fel lleihad yn y gwasanaethau oherwydd y collir gwelyau. Os yw rhywbeth arall yn cael ei roi yn ei le, anogodd NM y Bwrdd Iechyd i fod yn glir ynghylch beth y byddai hynny a rhoi'r dewisiadau eraill mewn lle yn gyntaf gan fod preswylwyr yn gweld hyn fel diwedd Ysbyty'r Barri.</p> <p>Ymatebodd JG drwy ddweud bod ynysu yn broblem i gleifion a hefyd i staff Ysbyty'r Barri e.e. llai o therapyddion ar y safle. Ategodd JG nad cynnig cau ward Sam Davies i arbed arian oedd yr ymgysylltu, ond gwneud yr hyn sydd orau i'r claf. Ychwanegodd LR oherwydd nad yw Ysbyty'r Barri yn cael ei staffio gan feddygon 24/7, bod penderfyniadau i ryddhau cleifion ac ati yn cael eu gohirio ond y gallai cyflyrau cleifion fod wedi gwaethygu erbyn hynny, ac oherwydd y rheswm hwn ni ellir darparu'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen i ddarparu'r model gofal newydd yn Ysbyty'r Barri.</p> <p>Roedd RC yn annog partneriaid i feddwl a gweithio fel BGC i helpu pobl i ddiogelu eu cartrefi at y dyfodol ac i wneud hynny'n gynharach mewn bywyd cyn bod cwmpadau ac ati yn debygol o ddigwydd trwy wasanaethau fel Gofal a Thrwsio. Gallai'r BGC gynnal ymgyrch hyrwyddo i ddiogelu cartrefi pobl yn y dyfodol. Cytunodd y partneriaid ac ychwanegodd CH y dylai fod yn ddull aml-asiantaeth.</p> <p>Daeth NM â'r drafodaeth i ben a diolchodd LR i'r holl bartneriaid am eu sylwadau gan sicrhau y byddent i gyd yn cael eu bwydo yn ôl i'r broses ymgysylltu.</p>	<p>Pawb</p> <p>Pawb</p> <p>LR</p>
<p>5. Anghydraddoldeb iechyd ym Mro Morgannwg</p> <p>Bu i FK dywys y partneriaid drwy'r papur ar gyfer yr eitem agenda hon sy'n tynnu sylw at lawer o'r materion allweddol yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u cynnwys yn y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach a lansiwyd ar 17^{eg} Hydref. Dywedodd FK wrth y Bwrdd, er bod y papur yn awgrymu nifer o gamau y gellid eu cymryd, nid oes yn rhaid gwneud pob dim ar unwaith a gall partneriaid weithio ar ddatblygu rhai camau gweithredu gyda'i gilydd. Cyflwynodd FK uchafbwyntiau allweddol yr adroddiad anghydraddoldeb iechyd gan nodi ardaloedd lle roedd cyffredinolrwydd yn arbennig o wahanol a'r rheswm posibl y tu ôl i'r gwahaniaethau hyn, sy'n aml yn economaidd-gymdeithasol. Y meysydd yr oedd y drafodaeth yn canolbwyntio arnynt oedd ysmegu, imiwneiddio, sgrinio a gweithgarwch corfforol.</p> <p>Ysmegu Mae nifer yr achosion o ysmegu yng Nghanol y Fro (24% o ysmygwyr yn 2010-15) o gymharu â Gorllewin y Fro (13% o ysmygwyr yn 2010-15) yn wahanol iawn. Awgrymodd FK y gallai hyn ddangos bod patrymau economaidd-gymdeithasol y tu ôl i ysmegu. Mae llawer o waith yn cael ei wneud eisoes i annog pobl i roi'r gorau iddi ac mae cyfleoedd ar gael ar gyfer cydweithredu yn enwedig camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd.</p> <p>Imiwneiddio Hysbysodd FK bartneriaid fod imiwneiddio yn un o'r ymyriadau gofal iechyd gorau sydd gennym a bod y nifer sy'n manteisio arno yn gryf yn y Fro, ond bod y nifer sy'n manteisio ar y gwasanaethau yng Nghanol y Fro (86.2%) ychydig yn is nag yn y Gorllewin y Fro (92.94%) a Dwyrain y Fro (93.8%). Nododd FK hefyd y problemau sy'n ymwneud ag</p>	

<p>anhydraddoldeb oedran gydag imiwneiddio gan fod nifer yr achosion o glwy'r pennau yn ddiweddar wedi bod yn debygol o fod yn llai hyderus o ran y brechlyn MMR. Gallai cyfleoedd ychwanegol i weithio'n well yn y maes hwn olygu gweithio gyda chydweithwyr addysg, yr heddlu ac iechyd galwedigaeth a byddai FK yn croesawu unrhyw drafodaethau yn y dyfodol.</p> <p>Sgrinio Mae'r adroddiad yn cynnwys ffigurau sgrinio a chwmpas ar gyfer nifer o wasanaethau sgrinio, fodd bynnag, mae sgrinio'r coluddyn yn parhau i fod â'r gyfradd isaf yn y Fro. Dengys y ffigurau sgrinio fod y derbyniad/cwmpas yn is mewn cymunedau PDDLIE. Cynigiwyd y dylid cytuno y byddai partneriaid yn helpu i annog staff i sgrinio'r coluddyn. Cytunodd FK i anfon rhywfaint o wybodaeth ynglŷn â sgrinio i'r partneriaid i'w throsglwyddo drwy sefydliadau partner.</p> <p>Gweithgareddau Corfforol Pwysleisiodd FK fod anfantais economaidd-gymdeithasol yn weladwy yn y ffigurau ar weithgarwch corfforol a bod gan Fro Morgannwg ran fawr i'w chwarae o ran gweithredu'r cynllun symud mwy, bwyta'n iach, y bydd FK yn dod â hi i'r BGC yn y gwanwyn i'w gymeradwyo.</p>	<p>PAWB</p> <p>FK</p> <p>FK</p>
<p>6. Y Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ddrafft</p> <p>Cyflwynodd DG y strategaeth a'i phapurau cysylltiedig. Hysbysodd DG y grŵp fod y strategaeth wedi cael ei datblygu yn dilyn dadansoddiad trylwyr o ddata trosedd ac anhrefn a gedwir gan sawl asiantaeth. Helpodd y gwaith dadansoddi hwn i ddatblygu'r blaenoriaethau strategol a dogfen gyhoeddus fyrrach syml sy'n amlinellu'r strategaeth yn glir. Cyflwynwyd y strategaeth ddrafft i bartneriaid er mwyn iddynt gael eu barn a'u sylwadau fel y gallent gael eu hadlewyrchu yn y strategaeth derfynol a chymeradwyo'r drafft i fynd i'r ymgynghoriad. Anogodd DG bartneriaid i edrych drwy'r strategaeth a chyflwyno unrhyw sylwadau yn ôl iddi erbyn y 1^{af} Tachwedd.</p>	<p>Pawb</p>
<p>7. Cyflawni Cynllun Llesiant y BGC</p> <p>Rhoddodd HM a TB gyflwyniad ar gynigion ar gyfer sut i fwrw ymlaen â Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus. Cynhaliwyd gweithdy ar gyfer partneriaid ym mis Medi ac mae hyn wedi llywio'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno i'r BGC.</p> <p>Awgrymwyd a chytunwyd y byddai'r BGC yn canolbwyntio ar y canlynol i gyflawni eu hamcanion llesiant.</p> <p>Projectau Allweddol Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd - Rob Thomas a Nadia de Longhi Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda – Fiona Kinghorn</p> <p>Dysgu Sefydliadol Ymgysylltu – Chris Hadfield</p> <p>Prosiect Braenaru Bancio Amser - Mike Ingram</p>	

<p>Mae'r dull hwn yn adlewyrchu ffordd fwy integredig o weithio tra'n galluogi'r BGC i ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth penodol. Bydd y camau uchod yn dwyn ynghyd y gwaith ar y siarter teithio iach, anghydraddoldebau, rheoli asedau, gwirfoddoli, bwyd y Fro a chaffael. Bydd y camau gweithredu eraill o fewn y Cynllun Llesiant yn parhau i gael eu cyflawni ac, ynghyd â'r meysydd blaenoriaeth, bydd yn sicrhau bod y BGC yn parhau i gyflawni ei amcanion llesiant.</p> <p>Wrth gyflawni'r blaenoriaethau uchod, bydd partneriaid yn ystyriol o'r angen i ystyried materion gwledig, tloedi, gwreiddio hawliau'r plentyn a chysylltiadau â gwaith Bro Mwy Diogel a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <p>Bydd tîm Strategaeth a Phartneriaeth y Cyngor yn gweithio gyda'r arweinwyr i ddatblygu dull o sicrhau y gellir adrodd yn rheolaidd ar gynnydd i'r BGC a monitro'r modd y cyflawnir y cynllun llawn. Bydd hyn yn cynnwys diweddariadau blynyddol gan Fro Mwy Diogel a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol</p> <p>Cytunwyd ar y ffordd arfaethedig ymlaen.</p>	<p style="text-align: center;">HM</p>
<p style="text-align: center;">8. Cyfarfod BGC 5^{ed} Rhagfyr - Cynnwys Pobl Ifanc</p> <p>Dywedodd HM fod y cyfarfod ym mis Rhagfyr wedi'i drefnu i gynnwys pobl ifanc. Y prif bwrpas yw archwilio sut y gall y BGC gynnwys pobl ifanc yn eu gwaith a faint o ddiddordeb sydd gan bobl ifanc yn y BGC. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn gyda'r Comisiynydd Plant.</p> <p>Awgrymwyd, er mwyn cynorthwyo yn y trafodaethau, y byddai'n ddefnyddiol cael pwnc i'w archwilio gyda phobl ifanc a chytunwyd y byddai'n amserol i drafod y newid yn yr hinsawdd gan y byddai hyn yn rhoi cyfle i ganfod mwy am y pryderon a'r syniadau sydd gan bobl ifanc am y newid yn yr hinsawdd ac yn llywio'r gweithgarwch i ddatblygu'r mater hwn fel un o flaenoriaethau strategol y BGC.</p> <p>Cytunwyd y byddai HM yn cysylltu â'r Fforwm Ieuencid a'i bartneriaid i gynllunio'r cyfarfod.</p>	<p style="text-align: center;">HM</p>
<p style="text-align: center;">9. Heriau a Chyfleoedd</p> <p>Yn y cyfarfod diwethaf cytunwyd y byddai eitem sefydlog ym mhob cyfarfod i alluogi partneriaid i ddod o hyd i unrhyw heriau a chyfleoedd y maent am eu rhannu gyda gweddill y BGC. Caiff hyn ei gynnwys mewn agendâu ar gyfer 2020.</p>	<p style="text-align: center;">Pawb</p>
<p style="text-align: center;">10. Blaenraglen Waith a Chalendr Cyfarfodydd 2020</p> <p>Trefnwyd cyfarfodydd ar gyfer 2020 a bydd y dyddiadau'n cael eu hanfon at yr holl bartneriaid. Bydd blaenraglen waith newydd yn cael ei datblygu a gofynnwyd i bartneriaid gysylltu â HM gydag eitemau ar gyfer yr agenda yn y dyfodol.</p>	<p style="text-align: center;">Pawb</p>
<p style="text-align: center;">11. Unrhyw Fater Arall</p> <p>Nid oedd unrhyw eitemau busnes ychwanegol.</p>	

<p>12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</p> <p>5^{ed} Rhagfyr 2019 5-7pm</p>	
<p>13. Lansiad Siarter Teithio Llesol Staff BGC y Fro</p> <p>Ar ddiwedd y cyfarfod lansiwyd Siarter Teithio Iach y BGC. Llofnododd yr holl bartneriaid y Siarter yn dilyn araith fer gan y Cyngorydd Moore yn rhoi ei gefnogaeth i'r Siarter a diolch i Dr Tom Porter am ei holl waith. Yna rhoddodd TP gyflwyniad byr ar y Siarter a dangosodd fideo yr oedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, am y Siarter a'r potensial ar gyfer newid.</p>	